

**Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer
20/1/2020**

Presennol: Tyly Roberts, (Cadeirydd), Clwyd Davies, Eleri Jones, Emyr Jones, Geraint Roberts, Gwyn Roberts, W D Williams, Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd). Lis Puw (Clerc)

Cyflwyniad gan aelod o'r cyhoedd: Croesawyd Mr M Adcock, Plas Gywair, i roi cyflwyniad ar ei ddymuniad i godi garej ar dir agored yn Llangywer. Roedd Mr Adcock wedi paratoi cyflwyniad ar bapur ymlaen llaw i'r Cynghorwyr yn amlinellu'r bwriadau ar gyfer Eglwys Santes Gwawr, y stablau o fewn cwrtil Plas Gywair, a'i ddymuniad i godi garej dwbl a gweithdy ar dir agored gyferbyn â Phlas Gywair. Dywedodd nad oedd yn fwriad ganddo ef i newid y defnydd yn ddiweddarach i fod yn "bungalow", ond cytunodd y gallai perchennog newydd geisio gwneud hyn yn y dyfodol. Roedd peth gwrthddywediad rhwng yr hyn a ddywedodd Swyddog o Barc Cenedlaethol Eryri wrth Mr Adcock â'r hyn sydd yn y Cynllun Datblygu, a chytunodd y Cyngor i gael esboniad ar hyn gan swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri. Eglurodd y Clerc fod y Cyngor wedi gwrthod y cais dwywaith yn barod, ac nad oes hawl o dan Reolau Sefydlog y Cyngor i newid y penderfyniad hwn o fewn chwe mis. Diolchwyd i Mr Adcock am ei gyflwyniad.

1. Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod.
2. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
3. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 11/11/19.
4. Materion yn codi:
 - a. Cyflwr Eglwys Santes Gwawr: Adroddodd y Clerc nad oedd wedi derbyn ymateb gan Swyddog adeiladau rhestredig Parc Cenedlaethol Eryri er ysgrifennu'n gyson ers blwyddyn a hanner.
 - b. Oherwydd bod rhai ymwelwyr yn cerdded eu cŵn yn y fynwent, pwrkaswyd arwydd "Dim Cŵn" i'w osod ar y giât.
 - c. Pwyllgor Ymgynghorol Llyn Tegid - rhoddwyd adroddiad ar y cyfarfod hwn a ddigwyddodd yn yr Hydref.
 - d. Trwsio Pont Rhiwaedog a thyllau wrth Riw Ceri a Bryntirion – adroddodd Alan Jones Evans fod cynlluniau i drwsio'r bont yn fuan, a bod y tyllau yn y ffordd yn mynd i gael sylw gan weithwyr Cyngor Gwynedd yn fuan.
 - e. Perygl wrth y Rheilffordd: derbyniodd y Clerc neges oddi wrth Swyddog Cyngor Gwynedd fod arwyddion digonol i rybuddio gywyrwyr fod tro dwbl yn y ffordd. Cytunodd Alan Jones Evans i atgoffa Swyddogion fod cerbyd wedi mynd drosodd i'r rheilffordd yn y man hwn yn y gorffennol, a chytunodd i ofyn am rwystr cadarn o boptu'r rheilffordd fel bod y ffin yn glir a diogel.
 - f. Hawl Claddu: mae'r gofod ar gyfer claddu ar ddarn uchaf y fynwent yn prinhaus. Anfonodd y Clerc at Barc Cenedlaethol Eryri ac at Gyngor Gwynedd am gyngor ar ddefnyddio'r darn isaf o'r fynwent ar gyfer claddu. Disgwylir ateb gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Bydd y Clerc yn trafod y sefyllfa gydag Ymgymerywyr Lleol; yn y cyfamser, cytunwyd i gyfyngu'r hawl i gladdu ar gyfer pobl sydd â chysylltiad agos â Llangywer.
5. Derbyniwyd Adroddiad Cynghorydd Gwynedd, Alan Jones Evans, a ddywedodd fod y dŵr sy'n cronni ar y ffordd wrth y neuadd yn Llangywer yn mynd i dderbyn sylw. Roedd yn falch o ddweud fod y safle ail-gylchu i'w weld yn daclus iawn ar hyn o bryd. Diolchwyd yn fawr iawn i Alan Jones Evans am ei waith.

6. **Materion lleol** gan aelodau'r Cyngor Cymuned: Pwrcaswyd padiau newydd i'r diffibs, a derbyniwyd rhodd gan Bwyllgor y Neuadd tuag at y gost. Diolchwyd yn gynnes i'r Pwyllgor, ac i Faes Carafanau Pantyrannen am gasglu tuag at gynnal y di-ffibs. Gwirfoddolodd Tyly Roberts a Clwyd Davies i brofi'r di-ffibs yn Rhosygwaliau a Llangywer yn gyson ac i gadw'r ciosgs yn lân. Diolchwyd i'r ddau Gynghorydd am wirfoddoli i wneud y gwaith hwn. Dywedodd y Clerc y byddai'n holi trydanwr gan fod y golau yng nghiosg Llangywer wedi methu yn ddiweddar.
7. **Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a soniodd am lwyddiant y cais i Arfor ar gyfer uwchraddio'r llawr uchaf o Ganolfan Henblas. Cafwyd budd mawr o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar gyfer holl Gynghorwyr ardal Penllyn, pryd y clywyd am waith ardderchog a wneir gan Ganolfan Ni yng Nghorwen. Cafwyd cyfle i gynllunio ar gyfer gwaith Partneriaeth Penllyn yn y dyfodol, ac mae cynlluniau i gyd-weithio gydag Ysgol Godre'r Berwyn i wneud gwaith ymchwil o farn trigolion Penllyn.
Gwnaeth Emyr Jones y sylw yr hoffai weld tref Y Bala yn ardal dementia-gyfeillgar.
8. **Gohebiaeth: Llywodraeth:** Cytunodd y Clerc i ymateb i ymgynghoriad ar ffioedd ceisiadau cynllunio.
9. **Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** Chwefror 24, 2019 am 7.30 yn neuadd bentref Llangywer pryd y dyfarnir cyllid i fudiadau ac achosion lleol.

Amser gorffen: 9.15pm